**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

16 Chwefror 2017

Annwyl Mr Thomas

**Cyngor Celfyddydau Cymru – Caffael Gwasanaethau**

Cymerodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu dystiolaeth gan Brif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC), Mr Nick Capaldi, yn ein cyfarfod ar 9 Chwefror.

Roedd y sesiwn hon mewn ymateb i'r pryderon a fynegwyd gan Celfyddydau a Busnes Cymru (CBC) ynglŷn â'r ffaith nad yw CCC bellach yn darparu cyllid craidd wrth iddo drosglwyddo i fodel caffael cyhoeddus ar gyfer cyllido'r maes hwn.

Yn ystod y sesiwn, cyfeiriodd Mr Capaldi at y gwaith craffu manwl iawn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar CCC er mwyn ystyried sail CCC ar gyfer gwneud penderfyniadau a'r canllawiau y mae'n eu dilyn. Ers y cyfarfod, anfonodd Mr Capaldi ragor o dystiolaeth ysgrifenedig, sydd ynghlwm.

Mae'r dystiolaeth hon yn dyfynnu 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru' ynghylch sefydliadau sector cyhoeddus yn sicrhau gwerth am arian drwy gaffael gwasanaethau drwy gystadleuaeth agored a theg. Mae hefyd yn cyfeirio at Ddatganiad Polisi Caffael Cymru, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob contract dros £25,000 gael ei hysbysebu ar wefan y Llywodraeth, GwerthwchiGymru. Mae'r dystiolaeth hefyd yn cynnwys darn o lythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru i CCC, sy'n cyfeirio at 'gontractau sydd wedi'u tendro'n briodol' ar gyfer y math o waith y mae CBC wedi'i wneud yn draddodiadol.

Yn achos cyllid craidd blaenorol i CBC, ymddengys bod cyllid cyhoeddus o oddeutu £70,000 wedi sicrhau buddsoddiad o oddeutu £1.4 miliwn yn y celfyddydau gan y sector preifat. Felly, mae'n ymddangos y byddai parhau â'r cyllid craidd ar y lefel hon yn ffordd resymol o sicrhau gwerth am arian cyhoeddus. Gellid dadlau hefyd bod y model caffael yn peryglu'r buddsoddiad hwn gan y sector preifat.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDGCh@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCWLC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCWLC
0300 200 6565

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael eglurhad ynghylch barn Swyddfa Archwilio Cymru ar y mater hwn. Yn arbennig, a yw rheolau neu ganllawiau Swyddfa Archwilio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i CCC ddilyn trefn gaffael gystadleuol, yn hytrach na'r system grantiau, i sicrhau y darperir gwasanaethau sy'n costio mwy na £25,000 fel y rheini a ddarperir gan CBC, neu ai disgresiwn CCC yw'r mater hwn.

Yn gywir,

Bethan Jenkins

**Bethan Jenkins AC**

**Cadeirydd**